# YR ATODLEN

## Buddiannau ariannol a gwrthdrawiadau penodedig eraill o ran buddiant

### Buddiannau ariannol

**1.**—(1) At ddibenion rheoliad 9, mae buddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu fater arall yn cynnwys achos—

(a) lle y cafodd person perthnasol ei enwebu neu ei benodi i swydd fel aelod o gorff llywodraethu sy'n cydweithredu gan berson y gwnaed y contract gydag ef neu berson y bwriedir gwneud y contract gydag ef;

(b) lle y mae'r person perthnasol yn bartner i berson, neu o dan gyflogaeth person y gwnaed y contract gydag ef neu berson y bwriedir gwneud y contract gydag ef; neu

(c) mae perthynas i berson perthnasol (gan gynnwys ei briod, ei bartner sifil o fewn ystyr Deddf Partneriaeth Sifil 2004(**1**) neu rywun sy'n byw gyda'r person hwnnw fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil i'r person), a bod y person hwnnw'n gwybod, neu y byddai'n cael ei drin fel un sy'n gwybod, bod ganddo fuddiant o'r fath.

(2) At ddibenion rheoliad 9, nid yw person perthnasol i'w drin fel un sydd â buddiant ariannol yn unrhyw fater—

(a) ar yr amod nad yw ei fuddiant yn y mater ddim mwy na buddiant y sawl sy'n gyffredinol yn cael eu talu i weithio yn yr ysgol;

(b) dim ond oherwydd y ffaith yr enwebwyd neu y penodwyd y person i swydd, a'i fod yn aelod o gorff cyhoeddus neu o dan gyflogaeth corff cyhoeddus; neu

(c) dim ond oblegid ei fod yn aelod o gorfforaeth neu gorff arall, os nad oes gan y person unrhyw fuddiant ariannol mewn unrhyw warantau yn y gorfforaeth honno neu'r corff arall hwnnw.

(3) Nid oes rwystr i aelodau o'r cyd-bwyllgor, oherwydd eu buddiant ariannol yn y mater, rhag ystyried cynigion a phleidleisio ar gynigion ar gyfer un neu fwy o'r cyrff llywodraethu sy'n cydweithredu i drefnu yswiriant sy'n diogelu eu haelodau rhag atebolrwydd y maent yn agored iddo sy'n codi o'u swyddi ac ni fydd corff llywodraethu sy'n cydweithredu, oherwydd buddiant ariannol ei aelodau, yn cael ei rwystro rhag sicrhau yswiriant o'r fath a rhag talu'r premiymau.

(4) Nid oes rwystr i aelodau o'r cyd-bwyllgor rhag ystyried neu bleidleisio ar unrhyw gynnig ynghylch lwfansau i'w talu yn unol â Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005(**2**) oherwydd bod ganddynt fuddiant mewn talu lwfansau o'r fath i aelodau o'r cyd-bwyllgor yn gyffredinol ond rhaid i aelod o gyd-bwyllgor ymneilltuo o gyfarfod pan ystyrir neu pan drafodir, a rhaid i'r aelod beidio â phleidleisio, p'un a ddylai dderbyn lwfans penodol, swm unrhyw daliad neu unrhyw gwestiwn ynghylch lwfans a dalwyd iddo.

(**1**) 2004 p.33.
(**2**) O.S. 2005/2915 (Cy.212).